

---

# Cyflwyniad i waith Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## An introduction to the role of the Welsh Language Commissioner

---

Ebrill 2012  
April 2012



# Cynnwys

## Contents

- 01 Meri Huws  
Comisiynydd y Gymraeg  
Welsh Language Commissioner
- 02 Cyflwyniad i Gomisiynydd y Gymraeg  
An introduction to the Welsh Language Commissioner
- 04 Deddfau'n ymwneud â'r Gymraeg  
Legislation relating to the Welsh language
- 06 Swyddogaethau'r Comisiynydd  
The Commissioner's functions
- 12 Statws swyddogol y Gymraeg  
The official status of the Welsh language
- 14 Safonau  
Standards
- 20 Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg  
Freedom to use Welsh
- 22 Cwynion  
Complaints
- 26 Tribiwnlys y Gymraeg  
Welsh Language Tribunal
- 28 Cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg  
Contacting the Welsh Language Commissioner

# Meri Huws

## Comisiynydd y Gymraeg Welsh Language Commissioner

01



---

# Cyflwyniad i Gomisiynydd y Gymraeg

02

---

Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi cyflwyniad byr i gyfnod cynnar gweithredu strwythurau newydd a grëwyd gan y Mesur, wrth i bwerau statudol Comisiynydd y Gymraeg ddod i rym.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw'r Mesur cyntaf yn ymwneud â'r Gymraeg i'w greu gan Lywodraeth Cymru.

- Meri Huws yw Comisiynydd y Gymraeg.
- Daeth pwerau statudol y Comisiynydd i rym ar 1 Ebrill 2012.
- Mae'r Comisiynydd yn annibynnol.

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
  - Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- 

---

# An introduction to the Welsh Language Commissioner

03

---

The role of Welsh Language Commissioner was created by the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

This publication provides a brief introduction to the early stages of the implementation of new structures created by the Measure, as the statutory powers of the Welsh Language Commissioner take effect.

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 is the first Measure relating to the Welsh language to be created by the Welsh Government.

- Meri Huws is the Welsh Language Commissioner.
- The Commissioner's statutory powers came into effect on 1 April 2012.
- The Commissioner is independent.

The principal aim of the Welsh Language Commissioner is to promote and facilitate use of the Welsh language.

This will entail raising awareness of the official status of the Welsh language in Wales and by imposing standards on organizations. This, in turn, will lead to the establishment of rights for Welsh speakers.

Two principles underpin the Commissioner's work:

- In Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language
  - Persons in Wales should be able to live their lives through the medium of the Welsh language if they choose to do so
-

---

# Deddfau'n ymwneud â'r Gymraeg

04

---

Mae nifer o ddeddfau a chyfreithiau wedi eu gweithredu er lles y Gymraeg yn ystod y ganrif ddiwethaf. Dyma grynodeb ohonynt:

## **Deddf Llysoedd Cymru 1942**

- Yn rhoi caniatâd cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys yng Nghymru

## **Deddf yr Iaith Gymraeg 1967**

- Yn rhoi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ymhellach yn llysoedd Cymru
- Darparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus

## **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

- Sefydlu'r egwyddor y dylid trin yr iaith Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru
- Rhoi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys yng Nghymru
- Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, cymeradwyo a sicrhau clymffurfiaeth â chynlluniau iaith Gymraeg.

## **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae'r Mesur yn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg â swyddogaethau sy'n cynnwys:

- Hybu defnyddio'r Gymraeg
  - Hwyluso defnyddio'r Gymraeg
  - Gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
  - Cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
  - Ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg
- 

---

# Legislation relating to the Welsh language

05

---

A number of acts and laws have been enacted in the interests of the Welsh language during the past century. In brief:

## **Welsh Courts Act 1942**

- Permitting limited use of Welsh in court in Wales

## **Welsh Language Act 1967**

- Giving the right to use Welsh more widely in courts in Wales
- Providing for the use of Welsh in public administration

## **Welsh Language Act 1993**

- Establishing the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality in the conduct of public business and the administration of justice in Wales
- Providing the right to use Welsh in the courts in Wales
- Establishing the Welsh Language Board to promote and facilitate the use of the Welsh language, and to approve and ensure compliance with Welsh language schemes.

## **Welsh Language (Wales) Measure 2011**

The Measure creates the post of Welsh Language Commissioner with functions that include:

- Promoting the use of the Welsh language
  - Facilitating the use of the Welsh language
  - Working towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language
  - Conducting inquiries into matters relating to the Commissioner's functions
  - Investigating interference with the freedom to use the Welsh language
-

---

# Swyddogaethau'r Comisiynydd

06

---

Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn:

- hybu defnyddio'r Gymraeg
- hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau canlynol, ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny:

- Hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg gan bersonau sy'n delio â phersonau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau i bersonau eraill
- Cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
- Llunio a chyhoeddi adroddiadau
- Gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- Gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud
- Gwneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru
- Cyflwyno sylwadau i unrhyw berson
- Rhoi cyngor i unrhyw berson

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn annibynnol.

---

---

# The Commissioner's functions

07

---

The Commissioner may take any steps deemed appropriate to:

- promote the use of the Welsh language
- facilitate the use of the Welsh language
- work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language

This includes, but is not limited to, any of the following:

- Promoting the provision of opportunities to use the Welsh language
- Encouraging best practice in relation to the use of Welsh by persons who deal with, or provide services to, other persons
- Keeping under review the adequacy and effectiveness of the law relating to the Welsh language
- Producing and publishing reports
- Carrying out, or commissioning others to carry out, research
- Carrying out, or commissioning others to carry out, educational activities
- Making recommendations in writing to the Welsh Ministers
- Making representations to any person
- Giving advice to any person

The Welsh Language Commissioner is independent.

---

Pan fo'n briodol, caiff Comisiynydd y Gymraeg gydweithio ag Ombwdsmyrn eraill.

Dros amser fe fydd y pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetfeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae gan y Comisiynydd rymoedd statudol o dan Adran 14, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i ymchwilio i gwynion.

Caiff ymchwilio i fethiant sefydliad i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliad i gydymffurfio â safonau.

### **Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg**

Mae Rhan 3 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngori ynghylch unrhyw fater.

### **Adroddiadau 5-mlynedd**

Rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg.

Bydd yn cynnwys:

- adroddiad ar ganlyniadau'r cyfrifiad ac unrhyw waith ymchwil arall i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Gymraeg
- asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg

Caiff yr adroddiad pum mlynedd cyntaf ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016.

When appropriate, the Welsh Language Commissioner may work with other Ombudsmen.

Over a period of time new powers to set out and impose standards on organizations will come into force through subordinate legislation. Until then, the Commissioner will continue to monitor statutory language schemes under powers inherited from the Welsh Language Act 1993.

The Commissioner has statutory powers under Section 14 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, for the investigation of complaints.

The Commissioner may investigate the failure of an organization to implement a language scheme; interference with the freedom to communicate in Welsh, and in the future, may investigate complaints relating to an organization's failure to comply with standards.

### **Advisory Panel to the Welsh Language Commissioner**

An Advisory Panel to the Welsh Language Commissioner will be established under Part 3 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. The Commissioner may consult the Advisory Panel regarding any matter.

### **5-year reports**

The Commissioner must produce a five-year report on the position of the Welsh language.

It will include:

- a report on the results of the census and any other research so far as they relate to the Welsh language
- an assessment of the implications of these results for the position of the Welsh language

The first five-year report will be published in early 2016.

## Adroddiad Blynyddol

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol.

Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys y materion a ganlyn:

- Crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd
- Adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg
- Crynodeb o raglen waith y Comisiynydd
- Cynigion y Comisiynydd ar gyfer rhaglen waith y flwyddyn ariannol ddilynol
- Crynodeb o'r cwynion a wnaed yn unol â'r weithdrefn a sefydlwyd o dan adran 14 y Mesur

Caiff adroddiad blynyddol hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'n briodol eu cynnwys yn nhyb y Comisiynydd.

## Ymholiadau

Yn ôl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, caiff y Comisiynydd gynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd.

Rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad ar ganfyddiadau unrhyw ymholiad a ymgwymerir.

## Annual Reports

The Commissioner will publish an annual report.

An annual report must include the following matters:

- A summary of the action taken in the exercise of the Commissioner's functions
- A review of issues relevant to the Welsh language
- A summary of the Commissioner's work programme
- The Commissioner's proposals for a work programme for the following financial year
- A summary of the complaints made in accordance with the procedure established under section 14 of the Measure

An annual report may also include any other matters which the Commissioner considers appropriate.

## Inquiries

According to the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Commissioner may conduct an inquiry into any matter relating to any of the Commissioner's functions.

The Commissioner must prepare a report on the findings of any inquiry undertaken.

---

# Statws swyddogol y Gymraeg

12

---

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a hynny am y tro cyntaf erioed.

Mae'r Mesur yn rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy gyfrwng deddfiadau ynghylch:

- gosod dyletswyddau ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg trwy safonau, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- rhoi dilysrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg
- hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- gwneud darpariaeth ynghylch rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd
- creu swydd Comisiynydd y Gymraeg
- materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg

Nid yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.

---

---

# The official status of the Welsh language

13

---

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 gives the Welsh language official status in Wales for the first time.

The official status of the Welsh language is given legal effect by enactments about:

- placing duties on organizations to use the Welsh language through standards, and the rights which arise from the enforceability of those duties
- the treatment of the Welsh language no less favourably than the English language
- the validity of the use of the Welsh language
- the promotion and facilitation of the use of the Welsh language
- the freedom of persons wishing to use the Welsh language to do so with one another
- the creation of the Welsh Language Commissioner
- other matters relating to the Welsh language

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 does not affect the status of the English language in Wales.

---



---

# Safonau

14

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru baratoi cynllun iaith Gymraeg fel modd o egluro sut y byddent yn mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg i'r Comisiynydd.

O ganlyniad, Comisiynydd y Gymraeg fydd yn cymeradwyo cynlluniau iaith Gymraeg o fis Ebrill 2012.

Dros gyfnod o amser caiff cynlluniau iaith Gymraeg eu disodli gan safonau statudol.

## Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion

Bydd y safonau yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddant yn nodi sut mae disgwyl i sefydliadau drin a defnyddio'r Gymraeg.

---

---

# Standards

15

Under the Welsh Language Act 1993, public organizations in Wales are obliged to prepare a Welsh language scheme outlining how they would work towards treating Welsh and English on the basis of equality while conducting public business in Wales.

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 transfers functions relating to Welsh language schemes to the Welsh Language Commissioner.

As a result, the Welsh Language Commissioner will approve Welsh language schemes from April 2012.

Over a period of time, Welsh language schemes will be replaced by statutory standards.

## Standards will operate in the following areas:

- Service delivery
- Policy making
- Operational
- Promotion
- Record keeping

The standards will place a duty on organizations to ensure that the Welsh language is treated no less favourably than the English language. They will state how organizations are expected to treat and use the Welsh language.

---

Bwriad y safonau yw ei gwneud yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu cael yn Gymraeg, a bod y gwasanaethau hynny yn gyson.

Mae'r Mesur yn pennu pa sefydliadau fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau (Atodlen 5–8).

Mae'r Mesur hefyd yn rhestru'n fanwl y camau i'w dilyn wrth lunio, cymeradwyo a rhoi'r safonau ar waith.

#### Cam 1

##### Cynnal Ymchwiliad Safonau

Caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau.

Bydd ymchwiliad safonau yn dyfarnu a ddylai sefydliad orfod cydymffurfio â safonau, ac os felly, pa safonau sy'n gymwys.

Rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad ysgrifenedig i bob sefydliad perthnasol cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Rhaid i'r Comisiynydd hefyd ymgynghori â phob sefydliad neu berson perthnasol, Panel Cynghori'r Comisiynydd a'r cyhoedd (ac eithrio os yw'r Comisiynydd yn ystyried ei bod yn amhriodol gwneud hynny).

#### Cam 2

##### Adroddiad Safonau

Bydd yr adroddiad safonau yn nodi casgliadau'r ymchwiliad safonau a rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau.

Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r adroddiad safonau wrth benderfynu a ydynt am osod y safonau ar y sefydliadau dan sylw, a sut i wneud hynny.

#### Cam 3

##### Hysbysiad Cydymffurfio

Wedi i Weinidogion Cymru gytuno ar safonau a'u cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth gall Comisiynydd y Gymraeg fynd ati i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau a osodir arnynt.

The purpose of standards is to clarify which services people can expect to receive in Welsh, and for these services to be consistent.

The Measure sets out which organizations must comply with standards (Schedule 5–8).

The Measure also sets out in detail the steps to be taken in creating, approving and applying standards.

#### Step 1

##### Carrying out a Standards Investigation

The Commissioner may carry out a standards investigation.

A standards investigation will determine which organizations should be required to comply with standards, and if so, what standards are applicable.

The Commissioner must give notice in writing to each relevant organization before beginning the investigation.

The Commissioner must consult with each relevant organization or person, the Advisory Panel and the public (unless the Commissioner considers that it is inappropriate to do so).

#### Step 2

##### Standards Report

The standards report will set out the conclusions of the standards investigation and the Commissioner's reasons for reaching the conclusions.

Welsh Ministers must have due regard to the standards report in deciding whether, and how, to apply the standards to the organizations in question.

#### Step 3

##### Compliance Notices

Once the Welsh Ministers have agreed and laid standards through subordinate legislation, the Welsh Language Commissioner may proceed to ensure that organizations comply with the standards imposed upon them.

---

Bydd y Comisiynydd yn mynd ati i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau a osodir arnynt trwy gyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad yn egluro pa safon neu safonau y mae'n ddyletswydd i sefydliad i gydymffurfio â nhw, ac erbyn pryd.

Os yw sefydliad o'r farn bod gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, gall herio penderfyniad y Comisiynydd. Os yw'n parhau i gredu bod y gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur, gall apelio ymhellach drwy Dribiwnlys y Gymraeg.

### **Pwy fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau?**

Mae'r Mesur yn pennu pa sefydliadau fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau.

Yn eu mysg mae sefydliadau cyhoeddus, yn ogystal â rhai cwmnïau preifat a rhai sefydliadau trydydd sector.

---

---

The Commissioner may proceed to ensure that organizations comply with the standards imposed upon them by giving a Compliance Notice. The notice will set out which standard or standards an organization has a duty to comply with, and by when it is expected to comply.

If an organization believes that the requirement to comply with a standard is unreasonable or disproportionate, it may challenge the Commissioner's decision. If an organization continues to believe the requirement is unreasonable or disproportionate, it may and appeal further to the Welsh Language Tribunal.

### **Who will have to comply with standards?**

The Measure sets out which organizations must comply with standards.

They include public organizations, as well as some private companies and organizations in the third sector.

---

# Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

20

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod gan siaradwyr Cymraeg ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yng Nghymru.

Caiff unigolyn ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrraeth honedig o ran defnyddio'r Gymraeg rhwng unigolion yng Nghymru.

Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio.

Gall y Comisiynydd gynnal ymchwiliad i achosion o'r fath, a llunio adroddiad yn nodi casgliadau ynghylch yr ymyrraeth. Mewn achosion o'r fath ni chaiff gymryd camau gorfodi.

Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi [Trefn Gwynion Comisiynydd y Gymraeg](#) yn nodi sut gall unigolyn wneud cwyn i'r Comisiynydd, a'r camau y bydd y Comisiynydd yn eu dilyn wrth ymateb i gŵyn o'r fath.



Gellir darllen dogfen Trefn Gwynion Comisiynydd y Gymraeg ar wefan y Comisiynydd:  
[comisiynyddygybraeg.org](http://comisiynyddygybraeg.org)



Gellir cysylltu â'r Comisiynydd am gopi papur:  
0845 6033 221  
[post@comisiynyddygybraeg.org](mailto:post@comisiynyddygybraeg.org)

# Freedom to use Welsh

21

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 confirms that Welsh speakers have the freedom to use Welsh with other people in Wales.

An individual may apply to the Commissioner to investigate cases where there has been an alleged interference with a communication in Welsh between individuals in Wales.

The Commissioner will decide whether or not to investigate the alleged interference.

The Commissioner may investigate such cases, and draft a report noting the conclusions regarding the interference. In such cases enforcement action cannot be undertaken.

The Commissioner has published a [Welsh Language Commissioner's Complaints Procedure](#) stating how an individual may complain to the Commissioner, and the steps the Commissioner will take in response to such complaints.



The Welsh Language Commissioner's Complaints Procedure document can be read on the Commissioner's website:  
[welshlanguagecommissioner.org](http://welshlanguagecommissioner.org)



Paper copies may be obtained by contacting the Commissioner:  
0845 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.org](mailto:post@welshlanguagecommissioner.org)

# Cwynion

22

Mae gan y Comisiynydd bŵer statudol i:

- ymchwilio i fethiant sefydliadau i weithredu eu cynlluniau iaith
- ymateb i gwynion am ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg
- ymateb i gwynion am ddefnydd o'r Gymraeg – neu ddiffyff defnydd o'r Gymraeg – gan sefydliadau eraill

## Y Drefn Gwyno

Os yw unigolyn yn anfodlon â'r gwasanaeth Cymraeg a gafodd gan sefydliad cyhoeddus, y cam cyntaf fydd anfon y gŵyn i'r sefydliad dan sylw, gan roi amser rhesymol i'r sefydliad ymateb.

Gall unigolyn gwyno wrth y Comisiynydd:

- os nad yw'r sefydliad yn ymateb i'r gŵyn
- os nad yw'r unigolyn (yr achwynydd) yn fodlon â'r ymateb a roddwyd i'r gŵyn
- os yw'r unigolyn o'r farn bod sefydliad yn cymryd gormod o amser i ymateb i'r gŵyn

Bydd disgwyl i unigolyn gyflwyno'r gŵyn i'r Comisiynydd cyn gynted ag sy'n ymarferol.



Gall unigolyn gyflwyno cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg  
Drwy ffonio: 0845 6033 221  
Drwy lenwi'r Ffurflen Cwyno ar y wefan:  
[comisiynyddygybraeg.org](http://comisiynyddygybraeg.org)  
Gellir cysylltu â'r Comisiynydd am gopi papur o'r Ffurflen Cwyno

# Complaints

23

The Commissioner has statutory powers to:

- investigate the failure of organizations to implement their language schemes
- respond to complaints about interference with an individual's freedom to use Welsh
- respond to complaints about the use – or lack of use – of the Welsh language by other organizations

## Complaints Procedure

If an individual is not satisfied with the Welsh language service received from a public organization, a complaint should be sent to the organization in the first instance, allowing a reasonable length of time for the organization to respond.

An individual may complain to the Commissioner:

- if the organization does not respond to the complaint
- if the individual (complainant) is not satisfied with the response given to the complaint
- if the individual believes the organization is taking an unreasonable length of time in dealing with the complaint

The individual should complain to the Commissioner as soon as is reasonably practical.



An individual may submit a complaint to the  
Welsh Language Commissioner  
By calling: 0845 6033 221  
By completing the Complaints Form on the website:  
[welshlanguagecommissioner.org](http://welshlanguagecommissioner.org)  
Paper copies of the Complaints Form may be obtained by  
contacting the Commissioner

Os yw'r Comisiynydd yn credu y gall ac y dylai ymchwilio i'r gŵyn, bydd y Comisiynydd yn gofyn am ragor o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

### **Cynnal ymchwiliadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Yn y cyfnod cyn gweithredu'r safonau'n llawn bydd y Comisiynydd yn monitro cynlluniau iaith Gymraeg.

Mae cynnal ymchwiliad i sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu cynllun iaith Gymraeg yn broses statudol a gynhelir dan Adran 17, Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993.

Ar ôl cynnal ymchwiliad bydd y Comisiynydd yn llunio adroddiad ar sail y dystiolaeth. Anfonir copi o'r adroddiad hwn at Weinidogion Cymru, at y sefydliad dan sylw, ac fel arfer caiff ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Os bydd y corff yn methu, neu'n gwrthod â gweithredu argymhellion y Comisiynydd, caiff y Comisiynydd gyfeirio'r achos at y Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â gofal dros faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Os bydd y Comisiynydd yn dod i gasgliad bod y sefydliad wedi gweithredu'n briodol yn ôl ei ddyletswyddau statudol, bydd yr ymchwiliad yn cael ei gau, a bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r achwynydd.

### **Cwynion ynghylch diffyg cydymffurfio â safonau**

Caiff proses cwyno ynghylch diffyg cydymffurfio â safonau ei chreu maes o law, pan fydd y safonau'n weithredol.

If the complaint is one the Commissioner believes can and should be investigated, the Commissioner will seek further information in order to come to a final decision.

### **Conducting investigations under the Welsh Language Act 1993**

In the period prior to full implementation of standards the Commissioner will monitor Welsh language schemes.

Conducting an investigation into a public organization implementing a Welsh language scheme is a statutory process, held under Section 17 of the Welsh Language Act 1993.

After conducting an investigation the Commissioner will produce a report based on the evidence. A copy of this report will be sent to the Welsh Ministers, the organization in question and will usually be published on the Commissioner's website.

If an organization fails or refuses to implement the Commissioner's recommendations, the Commissioner may refer the matter to the Minister responsible for the Welsh language within the Welsh Government.

If the Commissioner concludes that the organization has acted appropriately according to its statutory duties, the investigation will be closed, and the Commissioner will inform the complainant.

### **Complaints relating to the failure to comply with standards**

A complaints procedure relating to a failure to comply with standards will be introduced when the standards become operational.

---

# Tribiwnlys y Gymraeg

26

---

Mae Rhan 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg.

## **Pwrpas y Tribiwnlys**

Bydd y Tribiwnlys yn derbyn apeliadau gan sefydliadau sy'n credu bod un o'r gofynion canlynol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn afresymol neu'n anghymesur:

- Gofyniad i gydymffurfio
- Safon
- Cosb am fethu cydymffurfio â safon

Gall y Tribiwnlys naill ai gadarnhau, amrywio neu ddileu penderfyniad y Comisiynydd.

Os yw'r Comisiynydd, neu'r sefydliad, am apelio ymhellach ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad, bydd modd gwneud hynny i'r Uchel Lys gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys.

Bydd modd i unigolyn apelio wrth y Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd hyn yn digwydd mewn achosion lle bo Comisiynydd y Gymraeg yn penderfynu peidio ag ymchwilio i gŵyn ynghylch safonau.

---

---

# Welsh Language Tribunal

27

---

A Welsh Language Tribunal will be established under Part 7 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

## **Purpose of the Tribunal**

The Tribunal will receive appeals from organizations which believe that one of the following requests by the Welsh Language Commissioner is unreasonable or disproportionate:

- A requirement to comply
- A standard
- A penalty for failing to comply with a standard

The Tribunal may either affirm, vary or annul the Commissioner's decision.

If the Commissioner, or the organization, wishes to appeal further on a question of law arising from the decision, it may do so to the High Court with the permission of the Tribunal or the High Court.

An individual may appeal to the Tribunal against decisions made by the Welsh Language Commissioner. This will happen in cases where the Welsh Language Commissioner has decided not to investigate complaints regarding standards.

---

---

# Cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

## Contacting the Welsh Language Commissioner

28

---

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221  
post@comisiynyddygybraeg.org  
Croesewir gohebiaeth yn y  
Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygybraeg.org](http://comisiynyddygybraeg.org)

---

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.org  
Correspondence welcomed in  
Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.org](http://welshlanguagecommissioner.org)

---



Twitter:  
[@ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)

---





Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner